Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Gyfres Gynllunio: 10 – Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Awst 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6328**
E-bost: **Senedd.Research@Senedd.Wales**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Diweddariadau mewn amser real** | **Diweddariadau wythnosol a misol**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Gyfres Gynllunio: 10 – Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Awst 2022

**Awdur:**
Rhiannon Hardiman

# Cynnwys

**Cyflwyniad ........................................ 1**

**Beth yw Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol? ........................................ 1**

**Pryd y mae angen Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol? ........................................ 2**

Mathau o ddatblygiadau y mae arnynt angen Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol ........................................ 2

**Beth yw barn sgrinio? ........................................ 3**

Ceisiadau cynllunio heb Ddatganiad Amgylcheddol cysylltiedig ........................................ 4

**Beth yw’r gofynion ar gyfer Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol? ........................................ 5**

Mynediad at wybodaeth a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus ........................................ 6

**Beth yw barn gwmpasu? ........................................ 6**

**Sut yr ystyrir y Datganiad Amgylcheddol? ........................................ 6**

**Y prif dermau ........................................ 7**

**Ffynonellau allweddol** ........ **8**

Llywodraeth Cymru ........ 8

Y Comisiwn Ewropeaidd ........ 8

Cymorth Cynllunio Cymru ........ 8

**Deddfwriaeth allweddol** ........ **8**

**Ymchwil y Senedd** ........ **9**

# Cyflwyniad

Mae'r hysbysiad hwylus hwn yn rhoi trosolwg o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Mae'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn weithdrefn sy'n sicrhau bod goblygiadau amgylcheddol datblygiadau yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniadau cynllunio. Mae'r papur briffio hwn yn amlinellu beth yw Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol, pryd y mae angen eu cynnal, beth y mae sgrinio yn ei olygu, beth sy'n digwydd i geisiadau cynllunio heb Ddatganiad Amgylcheddol, yr hyn y mae'n rhaid i Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ei gynnwys, a sut y caiff Datganiadau Amgylcheddol eu hystyried.

## Beth yw Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol?

Mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn weithdrefn sy'n sicrhau bod goblygiadau amgylcheddol yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniadau cynllunio. Mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn asesu'r effaith gadarnhaol a negyddol bosibl y gall prosiect arfaethedig ei chael ar yr amgylchedd. Cyflwynir y wybodaeth hon i'r awdurdod cynllunio lleol neu Lywodraeth Cymru ar ffurf Datganiad Amgylcheddol i'w hystyried ochr yn ochr â chais cynllunio. Mae'n rhaid i Ddatganiad Amgylcheddol gynnwys crynodeb annhechnegol.

Mae'n rhaid i'r broses ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol gydymffurfio â **Chyfarwyddeb yr UE 2011/92/EU**, sef Cyfarwyddeb Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Diwygiwyd y Gyfarwyddeb Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn 2014 gan **Gyfarwyddeb 2014/52/EU** i symleiddio'r rheolau ar gyfer asesu. Nod y newidiadau hefyd oedd gwella lefel diogelu'r amgylchedd, gyda'r bwriad o wneud penderfyniadau busnes ar fuddsoddiadau cyhoeddus a phreifat yn fwy cynaliadwy yn y tymor hwy. Mae bygythiadau a heriau megis effeithlonrwydd adnoddau, newid hinsawdd ac atal trychinebau **yn cael eu cryfhau**. Roedd yn rhaid i Aelod-wladwriaethau gymhwyso'r rheolau o fis Mai 2017.

Mae pwerau i wneud rheoliadau ynghylch asesiad amgylcheddol cyn rhoi caniatâd cynllunio wedi'u cynnwys yn yr adran **71A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**. Mae'r gofyniad i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gynigion

cynllunio penodol yn **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017** (Rheoliadau 2017), sy'n gweithredu **Cyfarwyddeb 2014/52/EU** yng Nghymru mewn cysylltiad â chynllunio defnydd tir. Er nad yw'r DU bellach yn Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd, trosglwyddwyd cyfraith yr UE i gyfraith y DU ar ôl ymadael â'r UE ac mae'r Rheoliadau'n dal i fod yn gymwys yng Nghymru.

# Pryd y mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol?

Yn gyffredinol, bydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer prosiectau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd yn rhinwedd eu natur, eu maint neu eu lleoliad. Gellir gwneud y penderfyniad ynghylch a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer cynnig datblygiad penodol yn ystod nifer o gamau gwahanol:

- gall y datblygwr benderfynu bod angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a bydd yn cyflwyno Datganiad Amgylcheddol gyda'r cais cynllunio;
- gall y datblygwr ofyn am 'farn sgrinio' gan yr awdurdod cynllunio lleol, cyn cyflwyno cais cynllunio (manylir ar hyn yn ddiweddarach);
- gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu bod angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar ôl cael cais cynllunio;
- gall Gweinidogion Cymru hefyd benderfynu bod angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer cais a alwyd i mewn ar gyfer eu penderfyniad neu sydd ger eu bron ar apêl; neu
- gall Gweinidogion Cymru roi gorchymyn bod angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar unrhyw adeg cyn rhoi caniatâd ar gyfer datblygiad penodol.

Os bydd yr angen am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn dod i'r amlwg dim ond ar ôl cyflwyno'r cais cynllunio, caiff y gwaith i ystyried y cais ei atal dros dro nes y cyflwynir Datganiad Amgylcheddol.

## Mathau o ddatblygiadau y mae arnynt angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn orfodol ar gyfer prif fathau o ddatblygiad a restrir yn **Atodlen 1** o Reoliadau 2017 (sef datblygiadau Atodlen 1. Mae **Atodlen 2** yn nodi mathau eraill o ddatblygiad y mae angen cynnal Asesiad o'r Effaith

Amgylcheddol ar ei gyfer pan gyrhaeddir trothwyon penodol a phan fodlonir meini prawf penodol.

Mae **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) (Diwygio) 2019** yn ychwanegu gosod llinellau trydan uwchben penodol at Atodlen 2.

Mae newidiadau neu estyniadau i ddatblygiadau Atodlen 1 neu Atodlen 2 a all gael effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd hefyd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas Rheoliadau 2017.

Mae rheoliadau gwahanol yn gymwys i brosiectau y gall fod angen eu hasesu o dan y Gyfarwyddeb ond sydd wedi'u heithrio o'r system cynllunio gwlad a thref yng Nghymru. Er enghraifft, gwaith draenio tir, gwaith coedwigaeth a ffermio pysgod morol.

## Beth yw barn sgrinio?

Gelwir y penderfyniad gan yr awdurdod cynllunio lleol ynghylch a oes ar ddatblygiad angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn 'farn sgrinio', a gellir ymgymryd â hi cyn neu ar ôl cyflwyno cais cynllunio. Gall datblygwyr sy'n ansicr ynghylch a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ofyn am farn sgrinio gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn cyflwyno eu cais cynllunio.

Dylai'r cais gynnwys cynllun sy'n nodi lleoliad arfaethedig y datblygiad, disgrifiad byr o natur a diben y cynnig, a'i effeithiau amgylcheddol posibl, gan roi syniad bras o'u graddfa debygol.

Ar ôl i'r cais ddod i law, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried a yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd, gan ystyried ffactorau megis ei natur, ei faint neu ei leoliad. Mae **Atodlen 3** i Reoliadau 2017 yn nodi tri maen prawf bras i'w hystyried:

- nodweddion y datblygiad (maint, dyluniad, defnydd o adnoddau naturiol, cyfanswm llygredd a gwastraff a gynhyrchir, perygl damweiniau a risg i iechyd pobl);
- sensitifrwydd amgylcheddol y lleoliad;
- y mathau o effaith posibl a'i nodweddion (maint a hyd).

Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol fabwysiadu ei farn sgrinio o fewn tair wythnos i gais ddod i law. Mae'n rhaid sicrhau bod copïau o'r dogfennau perthnasol ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am ddwy flynedd yn y man lle y cedwir y gofrestr gynllunio (mae pob awdurdod cynllunio lleol yn dal cofrestr gynllunio), neu dylid eu trosglwyddo i Ran 1 o'r gofrestr (ffurflenni cais, cynlluniau a gwybodaeth ategol Rhan 1) os gwneir cais cynllunio am y datblygiad wedi hynny.

Gall datblygwyr apelio at Weinidogion Cymru am 'gyfarwyddyd sgrinio' pan fyddant yn anghytuno â phenderfyniad awdurdod cynllunio lleol i fabwysiadu barn sgrinio bod angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, neu pan na fydd awdurdod yn mabwysiadu barn o fewn y cyfnod penodedig.

## Ceisiadau cynllunio heb Ddatganiad Amgylcheddol cysylltiedig

Os caiff yr awdurdod cynllunio lleol gais cynllunio ar gyfer yr hyn y mae'n ymddangos ei fod yn ddatblygiad Atodlen 1 neu Atodlen 2 heb Ddatganiad Amgylcheddol yn cyd-fynd ag ef, ac nad oes barn sgrinio wedi'i mabwysiadu hyd yn hyn, mae'n rhaid iddo bellach fabwysiadu un:

- os nad oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, dylid mabwysiadu barn sgrinio yn esbonio hyn, a'i gosod ar Ran 1 o'r gofrestr gynllunio gyda'r cais cynllunio; neu
- os oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol hysbysu'r ymgeisydd, gan roi'r rhesymau llawn dros ei farn, ac yna mae'n rhaid gosod copi o'r hysbysiad ar Ran 1 o'r gofrestr gynllunio.

Os yw ymgeisydd am barhau â'r cais, mae'n rhaid iddo ymateb o fewn tair wythnos. Dylai'r ateb nodi bwriad yr ymgeisydd naill ai i ddarparu Datganiad Amgylcheddol neu i ofyn i Weinidogion Cymru am gyfarwyddyd sgrinio (fel uchod). Os digwydd hynny, dylai'r awdurdod cynllunio lleol atal dros dro ei ystyriaeth o'r cais cynllunio. Os nad yw'r ymgeisydd yn ymateb o fewn tair wythnos, bernir bod y cais wedi'i wrthod. Ni fyddai'n bosibl apelio at Weinidogion Cymru yn erbyn gwrthodiad o'r fath.

# Beth yw'r gofynion ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol?

Pan fydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, mae'n rhaid i'r datblygwr lunio gwybodaeth fanwl ynghylch prif effeithiau amgylcheddol posibl prosiect. Mae **Atodlen 4** i Reoliadau 2017 yn nodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys:

- disgrifiad o'r datblygiad, gan gynnwys;
  - disgrifiad o leoliad a nodweddion ffisegol y datblygiad cyfan;
  - disgrifiad o brif nodweddion cyfnod gweithredol y datblygiad (yn enwedig unrhyw broses gynhyrchu);
  - amcangyfrif, yn ôl math a maint, o ran gweddillion ac allyriadau disgwyliedig;
- disgrifiad o'r dewisiadau amgen rhesymol (er enghraifft o ran datblygiad, dyluniad, technoleg, lleoliad, maint a graddfa) a'r rheswm dros ddewis yr opsiwn;
- disgrifiad o'r agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd (senario waelodlin);
- disgrifiad o'r ffactorau a bennir yn rheoliad 4(2) y mae'r datblygiad yn debygol o gael effaith sylweddol arnynt: poblogaeth, iechyd pobl, bioamrywiaeth, tir, pridd, dŵr, aer, hinsawdd, asedau perthnasol, treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys agweddau pensaernïol ac archeolegol, a thirwedd;
- disgrifiad o effeithiau sylweddol tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd, er enghraifft o ganlyniad i'r defnydd o adnoddau naturiol, allyrru llygryddion a'r risgiau i iechyd pobl;
- disgrifiad o'r dulliau rhagweld neu'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i nodi ac asesu'r effeithiau ar yr amgylchedd;
- disgrifiad o'r mesurau a ragwelir i osgoi, atal, lleihau neu, os yw'n bosibl, wrthbwyso effeithiau andwyol sylweddol a nodwyd ar yr amgylchedd;
- disgrifiad o effeithiau andwyol sylweddol disgwyliedig y datblygiad ar yr amgylchedd sy'n deillio o risgiau damweiniau mawr a/neu drychinebau sy'n berthnasol i'r prosiect dan sylw;
- crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth uchod;
- rhestr gyfeirio yn nodi'r ffynonellau a ddefnyddiwyd yn y Datganiad Amgylcheddol.

Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol anfon y cais cynllunio a'r Datganiad Amgylcheddol at Weinidogion Cymru, ac anfon y cais at unrhyw gorff ymgynghori nad yw wedi cael copi'n uniongyrchol gan yr ymgeisydd. Mae'n rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r Datganiad Amgylcheddol a'r cais cynllunio ac mae'n rhaid rhoi'r cyfle i aelodau o'r cyhoedd gyflwyno eu barn am y cais.

### Mynediad at wybodaeth a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus

Er mwyn helpu'r datblygwr, mae **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004** yn rhoi hawl i'r cyhoedd gael mynediad at wybodaeth amgylcheddol a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus. Gallai gwybodaeth o'r fath gynnwys, er enghraifft, gyflwr elfennau'r amgylchedd, megis aer ac atmosffer, dŵr, pridd, tir; ffactorau neu fesurau sy'n effeithio arno; adroddiadau ar weithredu deddfwriaeth amgylcheddol; dadansoddiadau cost a budd; a chyflwr iechyd a diogelwch pobl.

Mae Rheoliadau 2004 yn gwneud hyn mewn dwy ffordd:

- mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod gwybodaeth amgylcheddol ar gael yn rhagweithiol;
- mae gan aelodau o'r cyhoedd hawl i ofyn am wybodaeth amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus.

## Beth yw barn gwmpasu?

Gall datblygwyr gael barn ffurfiol gan yr awdurdod cynllunio lleol am yr hyn y dylid ei gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol, a elwir yn 'farn gwmpasu'. Mae hyn yn galluogi'r datblygwr i fod yn glir am yr hyn sy'n brif effeithiau tebygol y datblygiad ym marn yr awdurdod cynllunio lleol a maint y materion y dylai'r Datganiad Amgylcheddol ganolbwyntio arnynt.

## Sut yr ystyrir y Datganiad Amgylcheddol?

Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol un wythnos ar bymtheg ar ôl i'r Datganiad Amgylcheddol ddod i law i benderfynu ar y cais cynllunio, yn hytrach na'r wyth wythnos arferol ar ôl i'r cais cynllunio ddod i law [gweler **Rheoliad 61**]..

Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ofyn am farn y cyrff ymgynghori, sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Gweinidogion Cymru. Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru ystyried y Datganiad Amgylcheddol, ynghyd

ag unrhyw wybodaeth arall a sylwadau arno, wrth benderfynu rhoi caniatâd i'r datblygiad ai peidio.

Os bydd Datganiad Amgylcheddol yn datgelu y byddai datblygiad yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd, nid yw'n dilyn yn ddiofyn y gwrthodir caniatâd cynllunio. Os rhoddir caniatâd, mae'n bosibl y bydd amodau'n cyd-fynd ag ef sy'n cynnwys mesurau lliniaru y gellir eu seilio ar y Datganiad Amgylcheddol.

Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol roi gwybod i'r cyhoedd a Gweinidogion Cymru am ganlyniad y penderfyniad, a rhoi'r prif resymau drosto. Os nad yw'r penderfyniad wedi'i wneud o fewn un wythnos ar bymtheg, gall yr ymgeisydd apelio at Weinidogion Cymru yn erbyn diffyg penderfyniad.

# Y prif dermau

**Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol**: gweithdrefn sy'n sicrhau bod goblygiadau amgylcheddol yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniadau cynllunio.

**Barn Gwmpasu**: barn ffurfiol gan yr awdurdod cynllunio o ran pa bynciau y dylai'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol/Datganiad Amgylcheddol ganolbwyntio arnynt.

**Barn Sgrinio**: penderfyniad gan yr awdurdod cynllunio lleol ynghylch a oes ar ddatblygiad angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

**Cyfarwyddyd Sgrinio**: canlyniad apêl at Weinidogion Cymru; pan fo datblygwyr yn anghytuno ag awdurdod cynllunio lleol bod angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, neu pan na fydd awdurdod yn mabwysiadu barn o fewn y cyfnod penodedig.

**Datganiad Amgylcheddol**: yn nodi canlyniad yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio er mwyn ei ystyried ochr yn ochr â chais cynllunio.

# Ffynonellau allweddol

## Llywodraeth Cymru

Mae'r **adran gynllunio** o wefan Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth a ganlyn:

- **Polisi Cynllunio Cymru** (Argraffiad 11) 2021
- **Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig, Cylchlythyr 11/99, Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, 1999**
- **Asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer cynllunio gwlad a thref: crynodeb o newidiadau**, 2017
- **Llawlyfr rheoli datblygu** (Cymru) 2017 - mae Adran 6.2 yn rhoi canllawiau ar broses yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

## Y Comisiwn Ewropeaidd

Y Comisiwn Ewropeaidd: **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol**

## Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru** ac mae'n helpu unigolion a chymunedau **cymwys** i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n cynnig gwasanaethau cynghori, gan gynnwys llinell gymorth.

# Deddfwriaeth allweddol

**Cyfarwyddebau'r UE 2011/92/EU** a **2014/52/UE**

**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017**

- Mae **Atodlen 1** yn rhestru datblygiadau mawr y mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn orfodol ar eu cyfer
- Mae **Atodlen 2** yn rhestru trothwyon a meini prawf ar gyfer datblygiadau eraill y mae arnynt angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
- Mae **Atodlen 3** yn rhestru'r meini prawf ar gyfer barn sgrinio
- Mae **Atodlen 4** i Reoliadau 2017 yn nodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y

Datganiad Amgylcheddol.

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) (Diwygio) 2019**

Mae **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004** yn gwneud darpariaethau o dan **Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

# Ymchwil y Senedd

Mae papurau briffio cynllunio eraill sy'n cael eu llunio gan Ymchwil y Senedd ar gael ar ein gwefan: **Ymchwil y Senedd**

Gallwch ein dilyn ar Twitter **@SeneddYmchwil**